TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Paratoi ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2



**Yn gryno**

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn cael profiad galwedigaethol mewn gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrau drwy gyflwyniadau, ymweliadau, gweithdai, mentora a phrofiad gwaith.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...Rydych yn dymuno dilyn gyrfa mewn gwasanaethau mewn lifrau

...Rydych eisiau cyfuniad o ddysgu rhagweithiol, ymarferol a theori

...Rydych yn breuddwydio am weithio i'r gwasanaeth tân, yr heddlu, y fyddin neu'r llynges.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs yn cynnwys astudio sgiliau gwasanaeth cyhoeddus, cynllunio gyrfa a gwella

iechyd a ffitrwydd er mwyn cael mynediad i'r gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai. Cewch gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cymorth cyntaf, gweithgareddau awyr agored, academïau pêl-droed, pêl-rwyd neu rygbi.

Nid oes arholiad ysgrifenedig terfynol gan y byddwch yn cyflawni eich cymhwyster trwy asesiad parhaus. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni aseiniadau, gwaith prosiect ac astudiaethau achos lle rydych chi'n casglu tystiolaeth o'ch cymhwysedd. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2

Gweithgareddau sgiliau

Mathemateg a Saesneg (os nad ydych wedi cael Gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf bedwar TGAU Gradd D neu uwch arnoch i gynnwys naill ai Mathemateg / Mathemateg Rhifedd neu Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol i gynnwys naill ai TGAU Mathemateg / Mathemateg Rhifedd neu Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â dangos parch at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan-gymhelliant. Cewch eich asesu'n barhaus ac mae disgwyliad y byddwch yn parhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 Gwasanaethau Cyhoeddus neu gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai neu'r diwydiant awyr agored.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Disgwylir i chi brynu cit awyr agored a chwaraeon hyd at werth £95, ynghyd â  40 ar gyfer Cofrestru D o E.

Ar gampws Crosskeys mae'r costau fel a ganlyn:

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

£ 80 am git Ysgol

£ 45 ar gyfer gweithgareddau awyr agored